




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yr Adran 50:50

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Faint fydd y gost i chi ymuno â'r Adran 50:50?	3
A fydd yr adran 50:50 yn effeithio ar eich yswiriant bywyd, eich yswiriant salwch a'ch buddion goroeswr?	3
Sut fydd eich pensiwn yn cronni yn y brif adran ac yn yr adran 50:50?	4
Sut ydych yn ymuno â'r adran 50:50?	4
Pa mor hir allwch chi gyfrannu at yr adran 50:50?	4
Allwch chi symud yn ôl i'r brif adran?	4
Beth sy'n digwydd os nad ydych ar unrhyw dâl oherwydd salwch neu anaf?	5
Allwch chi dalu cyfraniadau ychwanegol?	5
A yw fy nghyflogwr yn gallu gofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r adran 50:50?	5
A all Cronfa Bensiynau Clwyd roi cyngor ariannol i chi?	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	6

Cyflwyniad

Mae dwy adran i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae yna'r adran arferol, a elwir yn brif adran ac mae yna'r adran 50:50.

- Yn y brif adran, rydych yn talu cyfraniadau cyfradd lawn a bydd y pensiwn a gronnir gennych bob blwyddyn yn 1/49 o'ch cyflog pensiynadwy blyneddol
- Yn yr adran 50:50, rydych yn talu hanner eich cyfraniadau a bydd y pensiwn a gronnir gennych bob blwyddyn yn 1/98 o'ch cyflog pensiynadwy blyneddol

Faint fydd y gost i chi ymuno â'r Adran 50:50?

Fe fyddwch chi'n cyfrannu canran o'ch cyflog gros, gan ddibynnu ar faint rydych chi'n ei ennill. Dyma gyfradd y cyfraniadau ar gyfer y ddwy adran rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026:

Eich cyflog gwirioneddol gros	Cyfradd cyfraniadau ar gyfer y brif adran	Cyfradd cyfraniadau ar gyfer yr adran 50:50
Hyd at £17,800	5.50%	2.75%
£17,801 i £28,000	5.80%	2.90%
£28,001 i £45,600	6.50%	3.25%
£45,601 i £57,700	6.80%	3.40%
£57,701 i £81,000	8.50%	4.25%
£81,001 i £114,800	9.90%	4.95%
£114,801 i £135,300	10.50%	5.25%
£135,301 i £203,000	11.40%	5.70%
£203,001 +	12.50%	6.25%

A fydd yr adran 50:50 yn effeithio ar eich yswiriant bywyd, eich yswiriant salwch a'ch buddion goroeswr?

Nid oes ots os ydych yn talu cyfraniadau CPLIL yn y brif adran neu'r adran 50:50. Bydd gennych chi'r un yswiriant marw yn y swydd ac yswiriant salwch ag aelod sy'n talu cyfraniadau pensiwn ar gyfradd lawn yn y brif adran.

Sut fydd eich pensiwn yn cronni yn y brif adran ac yn yr adran 50:50?

Mae'r enghraifft isod yn dangos y gwahaniaeth o ran sut y bydd eich pensiwn yn cronni ym mhrif adran neu adran 50:50 y CPLIL. Mae'r enghraifft yma wedi'i seilio ar gyflog blynyddol o £24,000.

	Prif Adran	Adran 50:50
Cyfraniad Gros Blynyddol	£1,392 (5.80%)	£696 (2.90%)
Pensiwn Blynyddol wedi'i Gronni	£489.80 (1/49fed)	£244.90 (1/98fed)
Yswiriant Marw yn y Swydd	£72,000 (3 x £24,000)	£72,000 (3 x £24,000)

Sut ydych yn ymuno â'r adran 50:50?

Os hoffech chi ymuno â'r adran 50:50, gallwch lawrlwytho ffurflen o'r adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Fel arall, gallwch ffonio Cronfa Bensiynau Clwyd a byddwn yn e-bostio neu'n postio ffurflen atoch.

Os oes gennych fwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen 50:50 ar gyfer pob swydd. Dylech ddychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau i adran gyflogau eich cyflogwr oherwydd eu bod yn didynnu eich cyfraniadau pensiwn o'ch cyflog.

Pa mor hir allwch chi gyfrannu at yr adran 50:50?

Bwriedir i'r adran 50:50 fod yn ddewis tymor byr i'ch helpu yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Nid oes terfyn amser i ba mor hir allwch chi aros yn yr adran 50:50. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses gofrestru awtomatig, bydd eich cyflogwr yn eich rhoi yn ôl yn y brif adran bob tair blynedd ar y gyfradd gyfrannu lawn. Os ydych eisiau aros yn yr adran 50:50, bydd angen i chi gwblhau ffurflen 50:50 newydd. Cofiwch ddychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau i adran gyflogau eich cyflogwr.

Allwch chi symud yn ôl i'r brif adran?

Gallwch, mae gennych y dewis i symud yn ôl i'r brif adran ar unrhyw adeg. Bydd angen i chi lenwi ffurflen ethol i ailymuno â phrif adran y cynllun o'r **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan a dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi i adran gyflogau eich cyflogwr. Byddwch wedyn yn dechrau cronni buddion llawn yn y brif adran o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael.

Beth sy'n digwydd os nad ydych ar unrhyw dâl oherwydd salwch neu anaf?

Os nad ydych yn derbyn tâl oherwydd salwch neu anaf, bydd eich cyflogwr yn eich symud yn ôl i brif adran y cynllun pensiwn. Byddwch yn cronni buddion pensiwn ar y gyfradd lawn, er na fyddwch yn talu cyfraniadau pensiwn pan nad ydych yn derbyn tâl.

Allwch chi dalu cyfraniadau ychwanegol?

Os ydych yn yr adran 50:50 ac yn talu (neu'n ystyried talu) cyfraniadau ychwanegol, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd i drafod sut bydd hyn yn effeithio ar yr adran 50:50.

A yw fy nghyflogwr yn gallu gofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r adran 50:50?

Nid yw eich cyflogwr yn gallu gofyn i chi neu eich gorfodi i ymuno â'r adran 50:50. Os ydych yn teimlo bod eich cyflogwr yn eich annog i ymuno â'r adran 50:50, rhowch wybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Gallwch wneud hyn trwy eu gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk/cy

A all Cronfa Bensiynau Clwyd roi cyngor ariannol i chi?

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd wedi'i thrwyddedu i gynnig cyngor ariannol. Os ydych yn teimlo eich bod angen cyngor ariannol cyn gwneud penderfyniad terfynol, dylech gysylltu â chynghorydd ariannol annibynnol.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.